

Atodiad C: Tabl o ddogfennau canllawiau i'w diwygio

Canllawiau	Deddfwriaeth gysylltiedig	Diben y canllawiau	Newid
Canllawiau ar hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod (2013)	Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013	Mae'r canllawiau'n esbonio darpariaethau mewn rheoliadau sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr a chlercod a darparu clerc i gorff llywodraethu. Mae'n cynnwys adran ar ddeall data perfformiad ysgolion.	Ni fydd canllawiau newydd, o'r enw 'Deall Data Perfformiad – Canllawiau ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol yng Nghymru', yn cynnwys cyfeiriadau at ddata asesiadau athrawon, data yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a data profion o'r Adroddiadau Cymharol Ysgolion mwyach.
Cynlluniau Datblygu Ysgolion (2014)	Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014	Bwriad y canllawiau ar y rheoliadau Cynllun Datblygu Ysgol cysylltiedig yw cynorthwyo ysgolion i sefydlu dull cynllunio strategol cadarn o gyflawni gwelliannau yng nghanlyniadau dysgwyr.	Caiff y canllawiau eu diweddarau i gael gwared ar gyfeiriadau at Adroddiadau Cymharol Ysgolion.
Rheoli perfformiad i benaethiaid (2012) a Rheoli perfformiad i athrawon (2012)	Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011	Bwriad y dogfennau canllaw ar reoli perfformiad yw helpu ysgolion drwy gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer adolygu blaenoriaethau ac amcanion yng nghydestun cynlluniau gwella'r ysgol.	Bydd yr arweiniad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i argaeledd data ac yn nodi'r gofynion ar gyfer hunanasesu gan ddefnyddio data'r ysgol ei hun a data ar lefel genedlaethol.
Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso (2015)	Anstatudol	Cynlluniwyd pecynnau canllawiau i athrawon sy'n gweithio ar bob cam o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i helpu athrawon i ddeall a defnyddio'r dadansoddiadau data y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar gyfer hunanwerthuso. Mae pob pecyn yn cynnwys canllawiau ar sut i ddefnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ac	Caiff y canllawiau eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau yn y defnydd o ddata.

<u>Rheoliadau ynghylch adrodd am wybodaeth am yr ysgol ac am ddisgyblion: canllawiau cryno (2011)</u>	Amrywiol	Adroddiadau Cymharol Ysgolion. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg byr o newidiadau i ofynion sy'n deillio o ddiwygio rheoliadau yn 2011, gan gynnwys adrodd i rieni, y System Drosglwyddo Gyffredin, adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr, prosiectysau ysgol a gosod targedau ysgol.	Bydd y rheoliadau newydd yn effeithio ar lawer o'r pynciau o dan y canllawiau hyn. Caiff y canllawiau eu diweddarau yn unol â hynny i adlewyrchu newidiadau yn y defnydd o ddata.
---	----------	--	---